Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

24.04.26

SIOP LYFRAU ELUSEN BLWYDDYN 6

YEAR 6 CHARITY BOOK SHOP

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Diolch i bawb ddaeth â llyfrau ail-law i'r ysgol ar Ddiwrnod y Llyfr ar gyfer ein siop elusen. Rydym wedi bod wrthi yn brysur yn trefnu'r llyfrau ac mae'r siop yn barod i agor! Bydd ar agor o ddydd Mercher nesaf ymlaen (29.04), felly, os ydy eich plentyn eisiau cyfle i brynu llyfr, gallan nhw ddod ag arian (dim mwy na £2) i mewn i brynu llyfrau unrhyw ddiwrnod o ddydd Mercher ymlaen. Bydd y llyfrau yn llai na £1 yr un (yn dibynnu ar y math a chyflwr y llyfr) a bydd yr holl arian rydym yn ei gasglu yn mynd i elusen. Rydym wedi penderfynu ar elusen *Read for Good* y tymor yma, sydd yn darparu llyfrau i ysbytai a threfnu pobl i ddarllen straeon i blant sydd yn sâl er mwyn codi calon. Mae yna ystod o lyfrau Cymraeg a Saesneg yn y siop, ac mae yna rywbeth at ddant pawb, o ffuglen i ffeithiol i lyfrau comig. Dewch yn llu a chofiwch, rydym dal yn derbyn llyfrau mewn cyflwr da ar gyfer y siop!

Dear Parents / Carers,

Thank you to everyone who brought in second-hand books to school on World Book Day for our charity shop. We have been busy organising the books and the shop is now ready to open! It will open from next Wednesday (29.04), so if your child would like a chance to buy a book, they can bring in money (no more than £2) to buy books any day from Wednesday onwards. The books will be less than £1 each (depending on the type and condition of the book) and all the money we collect will go to charity. We have chosen the charity 'Read for Good' this term, who provide books and staff to read to children who are unwell in hospital, to lift their spirits. There is a range of books in our shop, both in Welsh and English, and there is something for everyone, from fiction to non-fiction to comic books. We look forward to seeing everyone and we still welcome donations of any books in good condition for our shop!

Diolch yn fawr,

Disgyblion Blwyddyn 6 *Year 6 Pupils*





